# Cofrestru'n llawn ar gyfer TAW a chyflwyno ffurflenni ar ran eich busnes

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer entrepreneuriaid sydd angen cofrestru'n llawn ar gyfer TAW a chyflwyno ffurflenni ar ran eu busnes. Rhaid i chi gofrestru eich busnes ar gyfer TAW gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC) os yw ei drosiant trethadwy TAW yn fwy na throthwy penodedig. Gallwch hefyd ystyried cofrestru'n wirfoddol ar gyfer TAW. Byddwch yn talu TAW i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC) o ddyddiad cofrestru effeithiol a ddaw i rym. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn codi'r swm cywir o TAW, talu unrhyw TAW sy'n ddyledus i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC), cyflwyno ffurflenni TAW, cadw cofnodion TAW a chyfrif TAW.  Hefyd, rhaid i chi ddilyn y rheolau ar gyfer 'Gwneud Treth Yn Ddigidol ar gyfer TAW' drwy gyflwyno rhai cofnodion yn ddigidol. Mae cwblhau'r cofrestriadau TAW a chyflwyno ffurflenni yn golygu nodi a ddylai eich busnes fod wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, paratoi ffurflen TAW a gofyn am gymorth proffesiynol pan fydd ei angen arnoch.

Efallai y bydd angen i chi wneud hyn os ydych yn:

1. dechrau busnes newydd;
2. paratoi ffurflen TAW.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwirio a oes angen i chi fod wedi cofrestru ar gyfer TAW
2. penderfynu a hoffech chi gofrestru ar gyfer TAW yn wirfoddol er budd eich busnes
3. cofrestru ar unwaith os ydych yn disgwyl i werth popeth rydych yn ei werthu yn y 30 diwrnod nesaf fod dros y trothwy penodedig
4. darparu eich trosiant, gweithgareddau busnes a manylion banc i gofrestru ar gyfer TAW
5. cofrestru ar gyfer TAW ar-lein neu drwy'r post drwy lenwi'r holl ffurflenni perthnasol
6. creu cyfrif TAW i gyflwyno'ch ffurflenni TAW
7. gwneud yn siŵr bod eich tystysgrif TAW yn cael ei derbyn a defnyddio'r rhif TAW ar ddogfennau perthnasol.
8. cydymffurfio â'r rheolau treth perthnasol a gwneud yn siŵr bod yr holl ffeiliau gorfodol yn cael eu cadw mewn fformat digidol
9. defnyddio meddalwedd gydnaws i allu cynnal eich cofnodion yn ddigidol
10. dewis y cynllun sy'n gweddu orau i'ch busnes i gyfrifo ar gyfer TAW
11. gwneud yn siŵr bod eich anfonebau'n cynnwys cyfradd a swm cywir eich TAW yn ogystal â'ch rhif TAW
12. nodi pa wybodaeth fydd ei hangen arnoch i lenwi ffurflen TAW
13. gwneud yn siŵr bod cyflwyniadau TAW yn cael eu gwneud yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol
14. nodi'r cynhyrchion neu'r gwasanaethau rydych chi wedi'u prynu a'u gwerthu a'r TAW sy'n berthnasol iddynt
15. cyflwyno eich ffurflenni TAW yn ddigidol, gan ddefnyddio data o systemau cofnodi priodol
16. ceisio arweiniad gan y Swyddfa TAW pan fo angen mewn modd proffesiynol
17. cael cymorth annibynnol, arbenigol a chyngor pan fydd angen
18. caniatáu digon o amser i lenwi'ch ffurflen TAW a'i hanfon o fewn y terfyn amser statudol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

Cofrestru ar gyfer TAW a'i chyfrifo

1. sut i gofrestru ar gyfer TAW
2. sut i gofrestru ar gyfer TAW yn wirfoddol a sut y gallai eich busnes elwa o wneud hynny
3. y gwahanol gynlluniau y gallwch eu defnyddio er mwyn cyfrifo TAW
4. pryd mae angen cyflwyno eich ffurflen TAW a pha mor hir y bydd yn ei gymryd i chi ei llenwi yn ôl pob tebyg

Cofnodion TAW

5. y wybodaeth sydd ei hangen arnoch i lenwi ffurflenni TAW (er enghraifft, cyfrifon sy'n cynnwys manylion anfonebau a gwerthiant)
6. sut i gofnodi gwybodaeth gyfrifo (er enghraifft, cofnodion ariannol cyfrifiadurol, cyfrifon ysgrifenedig a llyfr arian parod, derbynebau TAW ac anfonebau)
7. sut gall meddalwedd arbenigol eich helpu i gadw eich cyfrifon
8. enw a chyfeiriad eich busnes a rhifau cofrestru'r cwmni ac ar gyfer TAW
9. y cynlluniau cyfrifo TAW yr ydych yn eu defnyddio
10. y TAW y mae angen i'ch cwsmeriaid eu talu ar nwyddau a gwasanaethau rydych chi'n eu cyflenwi, gwerthu, prydlesu, trosglwyddo neu eu llogi
11. y TAW rydych yn ei thalu ar y nwyddau a'r gwasanaethau rydych yn eu derbyn, prynu, prydlesu, rhentu neu eu llogi
12. yr addasiadau y gallwch eu gwneud i ffurflenni TAW
13. yr 'amser cyflenwi' a 'gwerth y cyflenwad' (gwerth heb gynnwys TAW) am bopeth rydych chi'n ei brynu a'i werthu

14. cyfradd TAW sy'n cael ei chodi ar nwyddau a gwasanaethau mae eich busnes yn eu prynu a'r cyflenwadau

15. y trafodion tâl gwrthdro - lle rydych chi'n cofnodi'r TAW ar y pris gwerthu yn ogystal â phris y nwyddau a'r gwasanaethau rydych chi'n eu prynu

16. cyfanswm gros yr arian a wnewch yn ddyddiol os ydych yn defnyddio cynllun manwerthu

17. yr eitemau y gallwch adennill TAW arnynt os ydych yn defnyddio'r Cynllun Cyfradd Gwastad

18. cyfanswm eich gwerthiant, a'r TAW ar y gwerthiant hwn, os ydych chi'n masnachu mewn aur ac yn defnyddio'r Cynllun Cyfrifeg Aur

Y ddeddfwriaeth bresennol

19. ble i ddod o hyd i'r rheolau a'r rheoliadau presennol ynghylch TAW a llenwi ffurflen TAW

20. y mathau o TAW sy'n berthnasol i'r cynhyrchion neu'r gwasanaethau rydych chi wedi'u prynu a'u gwerthu, megis cyflenwadau safonol, cyflenwadau wedi'u heithrio, cyflenwadau di-radd, mewnforion ac allforion

Cael help a chyngor arbenigol

21. sut i ddilyn canllawiau am lenwi eich ffurflen TAW a sut i gael rhagor o wybodaeth

22. sut i ddod o hyd i gymorth a chyngor ariannol, pan fo angen

INSBE041

Cofrestru'n llawn ar gyfer TAW a chyflwyno ffurflenni ar ran eich busnes

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills CFA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 14 Ion 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | CFAMN11 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwyr ac Uwch Swyddogion, Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith |
| **Cyfres/Set** | Menter Busnes |
| **Geiriau Allweddol** | llwyddiant, busnes, syniad, cymdeithasol, menter, cwsmeriaid, cynhyrchion, gwasanaeth, cefnogaeth, creadigol, syniad, sgiliau, anghenion, cyflenwyr, arian parod, llif, deddfwriaeth, marchnata, marchnad, tueddiadau, cystadleuwyr, iechyd a diogelwch, TAW |